OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 479 (Cy.55)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013

Gwnaed - - - -	*4 Mawrth 2013*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*6 Mawrth 2013*
Yn dod i rym - -	*6 Ebrill 2013*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 27(2) a (5), 30(9), 31(1),(2)(c),(d),(e),(g) ac (h), 48(1) a 49(2) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) ac a freinir bellach ynddynt hwy(**2**).

I'r graddau na ellir gwneud y Rheoliadau canlynol o dan bwerau a gynhwysir yn Neddf 1990, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**3**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 mewn perthynas â mesurau yn y meysydd milfeddygol a ffyto-iechydol ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd(**4**).

Yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n pennu egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn pennu gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**5**), ymgynghorwyd yn agored a thryloyw â'r cyhoedd wrth baratoi a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1990 p.16. Amnewidiwyd adran 1(1) a (2) (y diffiniad o "food") gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adrannau 27(2), 30(9), 31(1) a 49(2) gan baragraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28), ("Deddf 1999"). Diwygiwyd adran 48 gan baragraffau 8 a 21 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999 a chan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adran 53(2) gan baragraff 19 o Atodlen 16 i Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (1994 p.40), Atodlen 6 i Ddeddf 1999, O.S. 2004/2990 ac O.S. 2004/3279.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers", i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 fel y'i darllenir ynghyd ag adran 40(3) o Ddeddf 1999, a throsglwyddwyd y swyddogaethau hynny yn ddiweddarach i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) 1972 p.68.

(**4**) O.S. 2008/1792.

(**5**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 596/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n addasu nifer o offerynnau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn y cyfeirir ati yn Erthygl 251 o'r cytuniad i Benderfyniad y Cyngor 1999/468/EC mewn perthynas â'r weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu: Addasu'r weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu — Rhan Pedwar (OJ Rhif L188, 18.7.2009, t.14).

Enwi cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013, maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 6 Ebrill 2013.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "cymwysedig" ("*qualified*") yw cymwysedig at ddibenion y Ddeddf;

ystyr "Y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Safonau Bwyd 1990;

ystyr "perchennog" ("*owner*") yw—

(a) yn achos nwyddau sydd ar daith, y traddodwr (neu, os nad oes gan y traddodwr gyfeiriad yng Nghymru, y traddodai);

(b) yn achos nwyddau o beiriant gwerthu—

(i) os yw'r peiriant wedi ei farcio ag enw a chyfeiriad ei berchennog, ac os yw'r cyfeiriad hwnnw yng Nghymru, y person hwnnw; a

(ii) mewn unrhyw achos arall, meddiannydd y fangre y saif y peiriant ynddi, neu y gosodwyd y peiriant ynghlwm wrthi;

(c) mewn unrhyw achos arall, y person a oedd yn ymddangos i'r swyddog awdurdodedig yn berchennog y sampl, pan gaffaelwyd y sampl gan y swyddog.

Darpariaethau samplu a dadansoddi nad yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt

3. Nid yw'r darpariaethau o'r Rheoliadau hyn a bennir yng ngholofn 3 o Atodlen 1 yn gymwys i unrhyw sampl a gymerwyd o dan ddarpariaethau'r Rheoliadau a restrir yng ngholofn gyntaf yr Atodlen honno.

Cymwysterau dadansoddwyr

4. Mae person yn gymwysedig i fod yn ddadansoddwr bwyd neu'n ddadansoddwr cyhoeddus, os oes gan y person hwnnw gymhwyster Meistr mewn Dadansoddi Cemegol, a ddyfarnwyd iddo gan y Gymdeithas Gemeg Frenhinol.

Cymwysterau archwilwyr bwyd

5.—(1) Mae person yn gymwysedig i fod yn archwilydd bwyd—

(a) os oedd y person hwnnw, cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, yn gymwysedig ar gyfer bod yn archwilydd bwyd o dan reoliad 4 o Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) 1990(**6**); neu

(b) os oedd y person hwnnw, ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw,

(i) yn meddu ar gymhwyster a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 2; a

(ii) wedi bod yn cynnal archwiliadau bwyd dros gyfnod neu gyfnodau cyfanredol o dair blynedd o leiaf, yn un neu ragor o'r labordai a restrir yn Rhan 2 o'r Atodlen honno.

(2) Wrth gyfrifo'r cyfnod cymhwyso ym mharagraff (1)(b)(ii), rhaid peidio â chymryd i ystyriaeth unrhyw gyfnod a dreuliwyd fel person israddedig mewn labordy a bennir ym mharagraffau 4 i 6 o Ran 2 o Atodlen 2.

(**6**) O.S. 1990/2463.

Cyfyngiadau sy'n gymwys i ddadansoddwyr ac archwilwyr

6.—(1) Ni chaiff cyfarwyddwr, perchennog na chyflogai unrhyw fusnes bwyd, na phartner mewn busnes bwyd, weithredu fel dadansoddwr cyhoeddus neu archwilydd bwyd ar gyfer yr ardal y lleolir y cyfryw fusnes ynddi.

(2) Ni chaiff person a grybwyllir ym mharagraff (1) ddadansoddi nac archwilio unrhyw sampl y gŵyr y person hwnnw ei bod wedi ei chymryd o'r busnes hwnnw.

Y weithdrefn pan fo sampl i gael ei dadansoddi

7.—(1) Rhaid i swyddog awdurdodedig, sydd wedi caffael sampl o dan adran 29 o'r Ddeddf ac sydd o'r farn y dylai'r sampl gael ei dadansoddi, beri bod y sampl, yn ddarostyngedig i baragraff (4), yn cael ei rhannu'n dair rhan.

(2) Os cynwysyddion seliedig sydd yn y sampl ac os byddai agor y cynwysyddion, ym marn y swyddog awdurdodedig, yn llesteirio dadansoddiad priodol, rhaid i'r swyddog awdurdodedig rannu'r sampl drwy osod y cynwysyddion mewn tair lot, a rhaid trin pob lot unigol fel rhan o'r sampl.

(3) Rhaid i'r swyddog awdurdodedig—

(a) os oes angen, rhoi pob rhan mewn cynhwysydd addas a selio pob cynhwysydd;

(b) marcio neu labelu pob rhan neu gynhwysydd;

(c) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, rhoi un rhan i'r perchennog a rhoi hysbysiad i'r perchennog i'r perwyl y bydd y sampl yn cael ei dadansoddi;

(d) cyflwyno un rhan i'w dadansoddi; ac

(e) cadw un rhan ar gyfer ei chyflwyno yn y dyfodol o dan reoliad 8.

(4) Os yw'r swyddog awdurdodedig o'r farn nad yw rhannu'r sampl yn rhesymol ymarferol, neu fod hynny'n debygol o lesteirio dadansoddiad priodol, rhaid i'r swyddog, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, hysbysu'r perchennog y bydd y sampl cyfan yn cael ei dadansoddi heb ei rhannu, a chyflwyno'r sampl i'w dadansoddi.

Cyflwyno'r rhan o'r sampl a gadwyd yn ôl

8.—(1) Os oes rhan o sampl wedi ei chadw'n ôl o dan reoliad 7(3)(e) ac

(a) achos cyfreithiol yn yr arfaeth neu eisoes wedi ei gychwyn yn erbyn person am drosedd mewn cysylltiad â'r sampl honno; a

(b) yr erlyniad yn bwriadu rhoi canlyniad y dadansoddiad a grybwyllir uchod gerbron fel tystiolaeth yn yr achos,

mae paragraffau (2) i (6) yn gymwys.

(2) Yn achos swyddog awdurdodedig—

(a) caiff, o'i wirfodd ei hunan, anfon y rhan o'r sampl a gadwyd yn ôl at Gemegydd y Llywodraeth ar gyfer ei dadansoddi;

(b) rhaid iddo wneud hynny os gofynnir iddo gan yr erlynydd (os yw'r erlynydd yn rhywun ac eithrio'r swyddog ei hunan);

(c) rhaid iddo wneud hynny os yw'r llys yn gorchymyn felly; neu

(d) yn ddarostyngedig i baragraff (6), rhaid iddo wneud hynny os gofynnir iddo gan y person cyhuddedig.

(3) Rhaid i Gemegydd y Llywodraeth ddadansoddi, neu gyfarwyddo dadansoddwr bwyd i ddadansoddi, y rhan a anfonwyd o dan baragraff (2) ac anfon tystysgrif o ddadansoddiad Cemegydd y Llywodraeth at y swyddog awdurdodedig.

(4) Rhaid i unrhyw dystysgrif a anfonir gan Gemegydd y Llywodraeth gael ei llofnodi gan, neu ar ran, Cemegydd y Llywodraeth, ond caniateir i'r dadansoddiad gael ei wneud gan berson sy'n gweithredu o dan gyfarwyddyd llofnodwr y dystysgrif.

(5) Ar ôl cael y dystysgrif, rhaid i'r swyddog awdurdodedig, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, gyflenwi copi o'r dystysgrif i'r erlynydd (os yw'r erlynydd yn rhywun ac eithrio'r swyddog awdurdodedig ei hunan) ac i'r person cyhuddedig.

(6) Pan wneir cais o dan baragraff (2)(d), caiff y swyddog awdurdodedig roi hysbysiad ysgrifenedig i'r person cyhuddedig, yn gofyn iddo dalu'r ffi a bennir yn yr hysbysiad, i ddiwallu rhan neu'r cyfan o'r gostau a dynnir gan Gemegydd y Llywodraeth am gyflawni'r swyddogaethau o dan baragraff (3), ac os nad yw'r person cyhuddedig yn cydsynio i dalu'r ffi a bennir yn yr hysbysiad, caiff y swyddog awdurdodedig wrthod cydymffurfio â'r cais.

Y weithdrefn pan fo sampl i gael ei harchwilio

9. Rhaid i swyddog awdurdodedig, sydd wedi caffael sampl o dan adran 29 o'r Ddeddf ac sydd o'r farn y dylai'r sampl gael ei harchwilio—

(a) os oes angen, rhoi'r sampl mewn cynhwysydd addas a selio'r cynhwysydd;

(b) marcio neu labelu'r sampl neu'r cynhwysydd; ac

(c) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol,

(i) cyflwyno'r sampl i'w harchwilio, a

(ii) rhoi hysbysiad i'r perchennog i'r perwyl bod y sampl i gael ei harchwilio.

Tystysgrifau

10.—(1) Pan fo sampl a gaffaelwyd o dan adran 29 o'r Ddeddf wedi ei dadansoddi neu ei harchwilio, mae hawl gan berchennog y sampl, drwy wneud cais, i gael copi o'r dystysgrif dadansoddi neu archwilio, gan yr awdurdod sy'n gorfodi.

(2) Rhaid i'r dystysgrif a roddir gan ddadansoddwr bwyd neu archwilydd bwyd o dan adran 30(6) o'r Ddeddf, yn ddarostyngedig i ba bynnag addasiadau a fydd yn ofynnol yn rhesymol oherwydd amgylchiadau, fod yn yr un ffurf â'r enghraifft a ddangosir yn Atodlen 3.

Diwygiadau canlyniadol

11. Yn y darpariaethau canlynol, yn lle'r geiriau "Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) 1990" rhodder "Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) 2013"—

(a) paragraffau (10) ac (11) o reoliad 13 (dadansoddi etc. samplau) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006(**7**);

(b) paragraffau (10) ac (11) o reoliad 38 (dadansoddi etc. samplau) o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009(**8**);

Dirymu

12. Dirymir Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) 1990(**9**) o ran Cymru.

(**7**) O.S. 2006/31. Gwnaed diwygiadau yn yr offeryn hwn, ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.
(**8**) O.S. 2009/3376. Cywirwyd y ffigur "35" ym mharagraff (10) o reoliad 38 i "37" gan slip cywiro.
(**9**) O.S. 1990/2463.

Lesley Griffiths
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

4 Mawrth 2013

ATODLEN 1 Rheoliad 3

Offerynnau nad yw darpariaethau penodedig o'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt

Enw	*Cyfeirnod*	*Darpariaethau penodedig*
Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Archwilio am Weddillion a Therfynau Uchaf Gweddillion) 1997	O.S. 1997/1729	Rheoliadau 7,8,9 a 10
Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2007	O.S. 2007/3165 (Cy.276)	Rheoliadau 7,8 a 9
Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012	O.S. 2012/2705 (Cy.291)	Rheoliadau 7,8 a 9
Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2010 (i'r graddau y mae sampl yn un sydd i'w ddadansoddi yn unol â Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif1881/2006 sy'n pennu'r lefelau uchaf ar gyfer rhai halogion mewn bwydydd)	O.S. 2010/2394 (Cy.206)	Rheoliadau 7,8 a 9
Rheoliadau Cig Dofednod (Cymru) 2011	O.S. 2011/1719 (Cy.195)	Rheoliadau 7,8 a 9

ATODLEN 2 Rheoliad 5

Cymwysterau Archwilwyr Bwyd

RHAN 1

1. Gradd gyntaf (gydag anrhydedd) mewn microbioleg (beth bynnag fo teitl y radd).

2. Gradd Meistr yn y Gwyddorau, ar yr amod—

(a) y dyfarnwyd y radd yn dilyn arholiad yn hytrach na thraethawd; a

(b) bod o leiaf un papur yn y radd yn bapur mewn microbioleg.

3. Cymrodoriaeth Sefydliad y Gwyddorau Biomeddygol, os enillwyd y Gymrodoriaeth honno ar sail pasio'r arholiad diploma arbenigol uwch mewn microbioleg feddygol, a osodir gan y Sefydliad hwnnw.

4. Y radd Meistr mewn Dadansoddi Cemegol a ddyfernir gan y Gymdeithas Gemeg Frenhinol.

5. Cymrodoriaeth neu Aelodaeth o'r Sefydliad Gwyddor a Thechnoleg Bwyd ynghyd ag aelodaeth o'i Grŵp Proffesiynol Microbioleg Bwyd.

6. Ym mharagraffau 1 a 2 o'r Rhan hon, ystyr "gradd" ("*degree*") yw gradd a ddyfarnwyd gan gorff a gydnabyddir at ddibenion adran 214 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (sy'n ymwneud â chyrff sydd â phŵer i ddyfarnu graddau yn y Deyrnas Unedig) neu a ddyfarnwyd gan brifysgol mewn Aelod-wladwriaeth arall.

RHAN 2

1. Labordy Cemegydd y Llywodraeth.

2. Labordy sy'n eiddo i Adran y Llywodraeth neu labordy o dan reolaeth gyfatebol llywodraeth Aelod-wladwriaeth arall.

3. Labordy a benodwyd yn labordy rheoli swyddogol o dan Reoliad 882/2004.

4. Labordy prifysgol yn y Deyrnas Unedig neu mewn Aelod-wladwriaeth arall.

5. Labordy 'corff cyllidadwy' o fewn yr ystyr a roddir i "fundable body" yn Neddf Addysg Bellach ac Uwch (Yr Alban) 2005(**10**)

6. Labordy Coleg Amaethyddol yr Alban.

7. Labordy sy'n arbenigo mewn microbioleg bwyd ac a achredwyd ar gyfer ISO/IEC 17025.

(**10**) 2005 dsa 6

ATODLEN 3 Rheoliad 10(2)

Tystysgrif Dadansoddiad a/neu Archwiliad

Tystysgrif Dadansoddiad a/neu Archwiliad a wnaed o dan Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013

AT: (*enw chyfeiriad y person a gyflwynodd y sampl yn wreiddiol*)

……..

……..

Rwyf i, sydd â'm llofnod isod,

…….

dadansoddwr cyhoeddus*/dadansoddwr bwyd*/archwilydd bwyd* ar gyfer……

…….

yn ardystio fy mod, am……o'r gloch (*amser*) ar……..(*dyddiad*)

wedi cael y sampl a farciwyd fel a ganlyn:

Dyddiad y cymerwyd y sampl:……

Rhif cyfeirnod, disgrifiad etc:……..

……..

Pwysau neu fesuriad: (*gellir hepgor hyn os nad oedd modd pwyso neu fesur y sampl yn hwylus, neu os nad yw'r pwysau neu'r mesuriad yn berthnasol i'r canlyniad*)

……..

gan—

y person a enwir uchod*

NEU

(*noder enw a chyfeiriad y dadansoddwr/archwilydd y cyflwynwyd y sampl iddo yn wreiddiol*)

……..

……..

Rwyf yn ardystio bod y sampl wedi ei dadansoddi*/harchwilio* gennyf i neu o dan fy nghyfarwyddyd i, a bod y canlyniadau fel a ganlyn:

……..

……..

(os oes angen, parhewch ar ddalen ar wahân, gan lofnodi pob tudalen ychwanegol)

Nodaf fy marn a'm sylwadau fel a ganlyn: (os ystyrir yn briodol gan y dadansoddwr/archwilydd):

……..

……..

(*os oes angen, parhewch ar ddalen ar wahân, gan lofnodi pob tudalen ychwanegol*)

Rwyf yn ardystio ymhellach nad oedd y sampl wedi dioddef unrhyw newid a fyddai'n effeithio ar fy

nghanlyniadau, fy marn na'm sylwadau. (*Mae'r datganiad hwn yn ofynnol pan fo sampl wedi ei dadansoddi. Dylid ei addasu os yw'r dystysgrif yn ymwneud ag archwilio bwyd*)

Ardystiwyd gennyf i ar y dydd hwn ……(*noder y dyddiad*) yn…… (*noder y lleoliad*)

Llofnod:…… Statws…….

Enw mewn PRIFLYTHRENNAU

Cyfeiriad swyddogol……...

…….

Rhif teleffon:…….. E-bost:……..

(**dileer fel y bo'n briodol*)

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu (yn *rheoliad 12*), o ran Cymru, ac yn ail-wneud ynghyd â diwygiadau ddarpariaethau Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) 1990 (O.S. 1990/2463).

Mae'r Rheoliadau—

(a) yn pennu pa gymwysterau sy'n angenrheidiol ar gyfer bod yn ddadansoddwr cyhoeddus neu'n ddadansoddwr bwyd (*rheoliad 4*) neu'n archwilydd bwyd (*rheoliad 5 ac Atodlen 2*) at ddibenion Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

(b) yn gwahardd personau penodedig rhag cyflawni dadansoddiadau neu archwiliadau (*rheoliad 6*);

(c) yn pennu pa weithdrefnau sydd i'w dilyn pan fo sampl wedi ei gaffael o dan y Ddeddf honno ar gyfer ei ddadansoddi neu ei archwilio (*rheoliadau 7, 8 a 9*), ac yn eithrio o'r gweithdrefnau hynny samplau a gymerir o dan y Rheoliadau hyn sydd â'u gweithdrefnau eu hunain (*rheoliad 3 ac Atodlen 1*); a

(d) yn rhagnodi ffurf y dystysgrif sydd i'w defnyddio gan ddadansoddwyr ac archwilwyr wrth wneud eu hadroddiadau (*rheoliad 10 ac Atodlen 3*).

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol mewn Rheoliadau eraill (*rheoliad 11*).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r buddiannau sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau. Gellir cael copi o'r asesiad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, Llawr 11, Tŷ Southgate, Wood Street, Caerdydd CF10 1EW

Statws *This is the original version (as it was originally made).*